

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Aseiad Iles Cwmbrân

Aseiad Iles ar gyfer ardal leol Torfaen

Cyfeirnod y Ddogfen : T03
Chwefror 2022

Cynnwys

1	Disgrifiad o'r ardal	2
2	Ynglŷn â Chwmbân	3
3	Lles Cymdeithasol.....	4
3.1	Ynglŷn â'r gymuned.....	4
3.2	Teithio o gwmpas	5
3.3	Mynediad i wasanaethau a throedd	7
3.4	Tai, aelwydydd ac iechyd	9
4	Economi	15
4.1	Gwaith, sgiliau ac addysg	15
5	Yr Amgylchedd.....	19
6	Diwylliant.....	23
7	Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.....	25
8	Cyfeiriadau.....	27

1 Disgrifiad o'r ardal

Wedi'i leoli o amgylch rhwydwaith o gymdogaethau penodol, mae ardal asesu Cwmbrân yn cynnwys Llantarnam, Llanyrafon a thu hwnt i hyn pentrefi Llanfrechfa a Ponthir yn y de-ddwyrain; Fairwater, Dôl Werdd a Henllys yn y gorllewin; Pontnewydd yn y gogledd; Coed Eva a Dwy Loc yn y de-orllewin; a Chroesyceiliog yn y dwyrain.

Wedi'i leoli ym mhwynt deheuol y fwrdeistref, mae Cwmbrân yn unigryw gan mai hwn yw'r unig Dref Newydd yng Nghymru. Fe'i dynodwyd yn Dref Newydd ym 1949, ac fe'i cynlluniwyd fel tref unigryw, flaengar a modern sy'n cynnig cyfleoedd newydd i'w thrigolion. Daw'r enw Cwmbrân o'r Gymraeg am Gwm y Frân.

Mae naws wahanol i dirwedd Cwmbrân o gymharu â thirwedd naill ai Blaenafon neu Bont-y-pŵl, gyda'r dref yn eistedd rhwng cefndir trawiadol bryniau Twmbarlwm a dyffryn Wysg i'r dwyrain. Mae'r dirwedd a gynlluniwyd yn cynnwys man gwyrdd ffurfiol fel Southfields a Llyn Cychod Cwmbrân, ynghyd ag ardaloedd mwy anffurfiol.

Mae agosrwydd Cwmbrân i Gasnewydd yn caniatáu mynediad hawdd i amwynderau dinesig. Y tu allan i gyfnodau brig y traffig, mae'n gyflym ac yn hawdd symud rhwng y ddau anheddiad.

Canol Tref Cwmbrân yw'r brif ganolfan fanwerthu sy'n gwasanaethu'r fwrdeistref gyfan a thu hwnt. Er ei fod yn ardal weddol fach, mae yno ystod eang o wasanaethau, o'r ardal fanwerthu i gerddwyr i ddarpariaeth hamdden, theatr a'r celfyddydau. Gyda pharciau manwerthu lloeren, cyfleusterau siopa lleol a pharciau diwydiannol, prin yw'r gofynion na ddiwellir yn lleol.

Gyda'i orsaf fysiau a threnau, mae canol y dref yn gweithredu fel prif ganolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus Torfaen.

Heddiw, mae Cwmbrân yn parhau i fod yn fan poblogaidd i fyw, gyda chanol tref lwyddiannus, cysylltiadau rhagorol o ran ffyrdd a thrafnidiaeth, amgylchedd uchel ei ansawdd ac amrywiaeth o gyfleoedd gwaith.

Ymhlith y cyfleusterau hamdden mae Stadiwm Cwmbrân a Chanolfan Hamdden Fairwater, sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, amrywiaeth o gampfeydd preifat, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwarae meddal a Fferm Gymunedol Greenmeadow sy'n boblogaidd iawn.




Ffigur 1: Llun o Gwmbrân o'r awyr



Ffigur 2: Canolfan Siopa Cwmbrân, Cwmbrân

2 Ynglŷn â Chwmbrân

Ardal	43.1 km² – tua 34% o gyfanswm arwynebedd Torfaen sy'n 126km ²
Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 49,800 - tua 53% o gyfanswm poblogaeth Torfaen sy'n 94,000 ¹ .
Dwysedd y Boblogaeth	Dwysedd y boblogaeth yw 11.55 person yr hectar, gyda'r mwyafrif o bobl yn byw yng Nghoed Eva a Llantarnam 1. Mae 7.45 o bobl yr hectar yn Nhorfaen ² .
Anheddau 	Nifer yr anheddau a gyfrifwyd yw 22,719 - tua 53.3% o gyfanswm yr anheddau yn Nhorfaen sy'n 42,645 ³ .



Ffigur 3: Map o Gwmbrân yn dangos y 7 MSOA

Cyffredinol Mae Cwmbrân yn cynnwys 7 Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol (MSOA), gyda 32 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) o fewn ei ffin. Wrth ystyried yr ardaloedd daearyddol llai hyn, gallwn weld pa mor wahanol yw lles o fewn cymunedau.

Gogledd Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Pontnewydd 1	Torfaen 007A
Pontnewydd 2	Torfaen 007B
Pontnewydd 3	Torfaen 007C
Pontnewydd 4	Torfaen 007D
Cwmbrân Uchaf 2	Torfaen 007E
Dwyrain Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Croesyceiliog 1	Torfaen 008A
Croesyceiliog 2	Torfaen 008B
Croesyceiliog 3	Torfaen 008C
Croesyceiliog 4	Torfaen 008D

Gogledd-orllewin Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Dôl Werdd 1	Torfaen 009A
Dôl Werdd 3	Torfaen 009B
Cwmbrân Uchaf 1	Torfaen 009C
Cwmbrân Uchaf 3	Torfaen 009D
Cwmbrân Uchaf 4	Torfaen 009E
Canol Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Llantarnam 3	Torfaen 010A
Sain Derfel 1	Torfaen 010B
Sain Derfel 2	Torfaen 010C
Sain Derfel 3	Torfaen 010D
Dwy Loc 1	Torfaen 010E

Gorllewin Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Fairwater 1	Torfaen 011A
Fairwater 2	Torfaen 011B
Fairwater 3	Torfaen 011C
Fairwater 4	Torfaen 011D
Dôl Werdd 2	Torfaen 011E
De-orllewin Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Coed Eva	Torfaen 012A
Dwy Loc 2	Torfaen 012B
Dwy Loc 3	Torfaen 012C
Dwy Loc 4	Torfaen 012D


De-ddwyrain Cwmbrân	
LSOA	MSOA
Llantarnam 1	Torfaen 013A
Llantarnam 2	Torfaen 013B
De Llanyrafon 1	Torfaen 013C
De Llanyrafon 2	Torfaen 013D

3 Lles Cymdeithasol

3.1 Ynglŷn â'r gymuned

Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd lles allweddol.

Mae amcangyfrif o boblogaeth gyffredinol Blaenafon wedi **cynyddu** o ryw **665** o drigolion, o 49,175 yn 2001 i 49,840 yn 2019 (+1.4%), o gymharu â Chymru (+8.6%). Gwelwyd y mewnlif uchaf net o drigolion yn Llantarnam 1 (**+776**) a'r all-lif fwyaf net oedd o Ddôl Werdd 1 (-236) ⁴.



Ffigur 4: Amcangyfrifon poblogaeth canol-2019 fesul oedran i Gwmbârân o gymharu â Chymru

Rhagwelir y bydd y boblogaeth gyffredinol yn Nhorfaen yn cynyddu 5.5% rhwng 2018 a 2043⁵. I Gwmbârân byddai hyn yn golygu 2,599 o bobl ychwanegol ⁶

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw yn Nhorfaen yn **gostwng 3%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru. I Gwmbârân gallai hyn olygu **290 yn llai** o bobl yn y grŵp oedran hwn.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn Nhorfaen yn gostwng 14% erbyn 2036 ond yna'n dychwelyd i'w lefel yn 2019 erbyn 2043.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn cynyddu 28% rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru⁷. I Gwmbârân allai hyn olygu **2,900** o bobl ychwanegol yn y grŵp oedran hwn ⁸.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn **cynyddu 70%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru⁹. I Gwmbârân gallai hyn olygu **1,020** o bobl ychwanegol yn y grŵp oedran hwn ¹⁰.

Gallai fod galw uwch am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn y dyfodol.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio angen tai sy'n bodloni eu hanghenion.

Nid yw'r data diweddaraf o gyfrifiad 2021 ar gael i'w ddefnyddio eto ond mae'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos:

Siaradwyr Cymraeg	Gall 10.2% o drigolion Cwmbrân siarad Cymraeg sy'n llai na'r cyfartaledd yng Nghymru (19%). Mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Nwyrain Cwmbrân (10.9%), ac mae'r isaf yn Ne-ddwyrain Cwmbrân (8.8%) ¹¹ .
Gwlad enedigol	Cafodd 83.1% o drigolion Cwmbrân eu geni yng Nghymru ¹² .
Ethnigrwydd	Mae 97.3% o drigolion Cwmbrân o ethnigrwydd gwyn. Mae tua 1,300 o bobl o ethnigrwydd nad yw'n wyn ¹³ .
Crefydd	Mae 55.9% o drigolion yn nodi bod eu crefydd yn seiliedig ar Gristnogaeth. 1.5% yn unig o drigolion Cwmbrân sydd â chrefydd anghristnogol. Nid oes gan 35.1% o drigolion ffydd crefyddol ¹⁴ .

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3.2 Teithio o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amryw o resymau yn y dref a thu hwnt; a hynny o ran hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynd i addysg neu waith, i symud nwyddau neu i ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain.

Mae gan Gwmbrân ffyrdd cysylltu da â Chasnewydd a choridor yr M4 trwy Gefnffordd yr A4042T. Gellir cyrraedd Casnewydd hefyd ar y B4236, Caerleon Road.

Gwasanaethir Canol y Dref gan orsaf fysiau a threnau, sy'n gweithredu fel y prif ganolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus. Mae gan y brif reilffordd gysylltiadau da â gorsaf Casnewydd, lle gellir cyrraedd amrywiaeth o gyrchfannau, gan gynnwys cysylltiadau da â Lloegr.

Gall trafnidiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd incwm isel neu'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau. Gall prisiau cyfredol olygu bod trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno. **Gall lleihau costau trafnidiaeth gynyddu incwm gwario a dod â phobl sy'n gweithio allan o dlodi.**

Gall cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus wneud cyfraniad pwysig i anghenion trafnidiaeth yn lleol, wrth hefyd helpu i fynd i'r

afael â materion fel **tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd** sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar gar.

Gall llwybrau teithio llesol, diogel, yn enwedig y rheini sy'n cynnig y potensial i gymudo, helpu i gefnogi **ffyrdd iach o fyw**.

Yn y dyfodol gallai fwy o bobl ddewis i deithio'n llesol fel y gallant gadw'n iachach wrth heneiddio.



Ffigur 5: Basn camlas Pum loc

Byddai camlas cwbl fordwyol yn darparu llawer o gyfleoedd, hamdden, trafndiaeth a threftadaeth i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Camlas Sir Mynwy ac Aberhonddu yn llifo trwy Gwmbrân ond o Aberhonddu i Bum Loc, Pontnewydd yn unig y gellir ei fordwyo. Yr uchelgais yn y tymor hir yw gallu teithio ar gamlas yr holl ffordd i Gasnewydd.

Efallai na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn teithio cymaint i'r gwaith.



Cyn y pandemig, roedd ychydig dros **45%** o'r bobl sy'n byw yng Nghwmbrân hefyd yn gweithio yn y dref, ond mae'r mwyafrif yn teithio i weithio ¹⁶.

Mae Covid-19 wedi golygu bod mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn defnyddio gwasanaethau ar-lein, ond mae mathau o waith nad

Mynediad i Fand Lydan



Mae bron pob cartref yng Nghwmbrân yn gallu cyrchu band llydan gyda chyflymder o, o leiaf 30Mb/s . Mae nifer y trigolion sy'n methu â gwneud hynny, sef 1.7% ¹⁵ yn Nwyrain Cwmbrân.

oes modd eu gwneud o bell nac yn ddigidol.



Mae bron i bumed o drigolion sy'n gweithio (460) yn gweithio yn y maes cynhyrchu ¹⁷.

Nid ydym yn gwybod a fydd gweithio gartref yn drefniant parhaol neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w gweithleoedd neu'n dewis defnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb neu gyfuniad o'r ddau.

Nid yw gallu cyrchu band llydan yr un peth â'i gael. Gall fforddiadwyedd a/neu lythrennedd digidol fod yn rhwystyr i rannau o'r gymuned.

3.3 Mynediad i wasanaethau a throsedd



Cwmbrân yw'r anheddiad mwyaf yn Nhorfaen. Fel rhan o ddyluniad y dref newydd, mae gan y mwyafrif o'r prif ardaloedd tai ganolfannau cymdogaeth sy'n darparu gwasanaethau a siopau lleol. Canol Tref Cwmbrân yw'r brif ganolfan manwerthu yn Nhorfaen a gellir cyrchu ystod ehangach o wasanaethau yno hefyd.



Cyn Covid, roedd nifer y lleoedd gwag yng Nghanol Tref Cwmbrân yn **6.4%** ¹⁸.

Roedd y monitro yn 2021 yn dangos bod nifer y lleoedd gwag wedi cynyddu i **10%** ¹⁹. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod ynghlwm â chyfyngiadau'r pandemig a mwy yn prynu ar lein.

Yn 2020 agorodd ysbyty newydd ar safle Llanfrechfa Grange, ar gyrion Cwmbrân. Mae Ysbyty Athrofaol y Faenor yn Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol sy'n cynnig canolfan ragoriaeth yng Ngwent i

drin ein cleifion mwyaf difrifol wael, neu'r rhai ag anafiadau sylweddol, a hi yw'r uned drawma ddynodedig ar gyfer Gwent.

Mae yng Nghwmbrân **lyfrgell** a dau **ganolfan addysg gymunedol** sy'n darparu gwasanaethau cynghori ac ystod eang o gyrsiau, sy'n cynnig cymwysterau penodol iawn ar gyfer byd gwaith a sesiynau ffordd o fyw sy'n gwella iechyd meddwl a lles.

Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn gweithredu Stadiwm Cwmbrân sy'n cynnig ystod o gyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored, yn ogystal â nofio yng Nghanolfan Hamdden Fairwater ar safle Ysgol Uwchradd Cwmbrân. Mae Stadiwm Cwmbrân yn ganolbwynt cymunedol a ddefnyddiwyd fel Canolfan Frechu Ranbarthol Torfol.

Mae 13 o ysgolion cynradd Saesneg ac ysgol gynradd Gymraeg yn ardal Cwmbrân a dwy ysgol uwchradd. Mae canol tref Cwmbrân yn gartref i Barth Dysgu Torfaen, campws pwrpasol, £24 miliwn sy'n cynnig addysg ôl-16 i'r fwrdeistref.

Mae Ysgol Crownbridge yn ysgol ddydd arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'n addysgu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu difrifol rhwng 2 a 19 oed. Mae ystod o sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu hefyd wedi'u lleoli yng Nghwmbrân, sef Pobl yn Gyntaf Torfaen, *Evolve* ac *Able Radio*.

Bydd y galw lleol yn effeithio ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir yn y dyfodol.

Oni bai bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i ddefnyddio gwasanaethau na chymryd rhan ym mywyd y gymuned.



Mae lladrata yng nghymunedau Cwmbrân ar ei leiaf uchaf yng Ngogledd Cwmbrân a hynny ar gyfradd o **1.85 fesul 100** o'r boblogaeth o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef **1.36**. Mae'r gyfradd uchaf, sef **2.66**²⁰ yn LSOA Fairwater 1.

Bydd delio â throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi gwell cydlyniant yng nghymunedau Torfaen.

3.4 Tai, aelwydydd ac iechyd

Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Blaenafon yw sicrhau bod yna'r math cywir o dai i gefnogi anghenion y gymuned. Gwyddom er enghraifft, y rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn sy'n byw yn Torfaen yn cynyddu.

Y Stoc Dai	Mae llawer o'r stoc dai o oedran tebyg, sef adeiladau anhraddodiadol sy'n aneffeithlon o ran ynni. Mae hefyd pocedi o dai mwy newydd.
Band Treth y Cyngor	Mae 37.9% ym mand A neu B treth y cyngor – y ddau gategori isaf o ran gwerth. Mae traean o'r tai yng Nghwmbrân ym mand C treth y cyngor . Mae chwarter y tai yn LSOA De Llanyrafon 2 (25,4%) wedi eu gosod ym mand G treth y cyngor neu uwch. ²¹ .
Daliadaeth	Mae trigolion yn ychydig dan 30% o'r tai yng Nghwmbrân yn berchen arnynt yn llwyr, ac mae 36% yn berchen arnynt drwy forgais neu fenthyciad. Mae chwarter y tai yng Nghwmbrân yn cael eu rhentu gan yr Awdurdod Lleol neu LCC * (24.6%), sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (16.1%) - mae hyn yn uwch yng Nghwmbrân Uchaf 1 sy'n 55.8% ²² . <i>* Yn Nhorfaen nid oes unrhyw dai yn eiddo i'r awdurdod lleol, felly mae'r data hwn yn ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn unig .</i>

Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu nawr yn waddol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r galw am dai yn ne Torfaen yn uwch na gweddill y fwrdeistref, oherwydd amrywiaeth o ffactorau, fel cyfleoedd gwaith, cysylltiadau trafnidiaeth, ysgolion, a'r ystod o amwynderau.

Bydd bodloni'r galw lleol am dai nawr ac yn y dyfodol yn darparu cartrefi i'r gweithlu lleol.

Pe bai tai'r dyfodol yn gwella o ran effeithlonrwydd ynni, byddai cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon.



Mae asesiad risg hinsawdd y DU yn nodi risgiau i iechyd a lles a hynny o ran tymereddau uchel. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith na wyddys lefel y risg i gartrefi Cymru heddiw ac yn y dyfodol²³.

Bydd angen i gartrefi'r dyfodol hefyd allu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid.



Cost eiddo ar gyfartaledd yn ardal Cwmbrân (cod post NP44) yn ystod 2020 oedd **£195,597**²⁴.

Yr incymau blynyddol ar gyfartaledd yn Nhorfaen yw tua **£32,600**²⁵a'r gymhareb pris tai: incwm yw tua **6:1**. Mae hyn yn golygu y byddai rhaid i ymgeisydd sengl wario 6 gwaith ei gyflog i allu

prynu eiddo sy'n golygu bod hyn yn atal y mae'r mwyafrif o bobl sengl i brynu heb gymorth.

Bydd angen i genedlaethau'r dyfodol gael mynediad i dai fforddiadwy.


Mae prisiau tai ac eiddo preifat i'w rhenti yn ardal Cwmbrân yn nodweddiadol uwch nag yng Ngogledd y Fwrdeistref. Mae hyn yn golygu bod mwy o ddibyniaeth ar dai cymdeithasol ar gyfer aelwydydd ar incwm is.

Mae galw mawr am lety i'w rhenti'n breifat yn yr ardal, ac mae prisiau wedi bod yn codi. Mae rhai materion yn ymwneud â fforddiadwyedd i aelwydydd ar incwm isel a'r rhai ar fudd-daliadau.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc tai yn y fwrdeistref bellach, mae Tai Cymunedol Bron Afon a Chartrefi Melin ymhlith nifer o gymdeithasau tai sy'n gweithredu yn ardal Cwmbrân.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r modd swyddogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fesur tlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny, mewn ardal ddaearyddol LSOA, sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn rhestru pob LSOA yng Nghymru o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig.


Mae Ffigurau 6 - 12 yn rhoi trosolwg o raddfa'r amddifadedd cymharol ledled Cwmbrân, yn seiliedig ar ddata o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ²⁶.




Ffigur 6: Safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar gyfer Gogledd Cwmbrân

Amddifadedd o ran incwm	Mae Pontnewydd 1 a Chwmbrân Uchaf 1 yn y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae Dôl Werdd 1 a 3, Cwmbrân Uchaf 3, Llantarnam 3, Sain Derfel 1, Dwy Loc 1 a Fairwater 2 yn y 10-20% o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
Amddifadedd o ran incwm	Cwmbrân Uchaf 1 sydd â'r amddifadedd incwm uchaf (32%) a'r ardal sydd â'r isaf yw De Llanyrafon 2 (3%). Mae Cwmbrân Uchaf 1, Pontnewydd 1 a Chwmbrân Uchaf 3 yn y 10 o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
Cyflogaeth	Mae Pontnewydd 1 a Llantarnam 3 ymhlith y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
Iechyd	Mae Pontnewydd 1 a Chwmbrân Uchaf 1 ymhlith y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru .
Addysg	Mae Dôl Werdd 1, Cwmbrân Uchaf 3 a 4, a Dwy Loc oll yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn nhermau addysg.
Diogelwch cymunedol	Mae Pontnewydd1, Llantarnam 3 a Sain Derfel oll yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran diogelwch cymunedol.
Amgylchedd ffisegol	Mae Pontnewydd 1, Gogledd Croesyceiliog 1 a De Llanyrafon 2 yn y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.


Asesiad Lles Cwmbwrn




Ffigur 7: Safleoedd MALIC ar gyfer Dwyrain Cwmbwrn




Ffigur 8: Safleoedd MALIC ar gyfer Gogledd-orllewin Cwmbwrn




Ffigur 9: Safleoedd MALIC ar gyfer Canol Cwmbwrn



Ffigur 10: Safleoedd MALIC ar gyfer Gorllewin Cwmbwrn



Ffigur 11: Safleoedd MALIC ar gyfer De-orllewin Cwmbwrn



Ffigur 7: Safleoedd MALIC ar gyfer De-ddwyrain Cwmbwrn

Yn gyffredinol, ystyrir mai gweithio yw'r llwybr gorau allan o amddifadedd, ond lle mae cyflog yn isel, oriau gwaith yn gyfyngedig neu'r ddau, yna nid yw hyn yn wir bob amser. Mae'r data'n awgrymu bod rhai pobl sy'n byw yng nghymunedau Cwmbrân yn wynebu tlodi yn y gwaith

Mar **chwarter** o'r bobl sydd o oed gwaith ym **Mhontnewydd 1** yn derbyn **budd-daliadau sy'n gysylltiedig â gwaith** ²⁷.

Gall rhaglenni cyflogadwyedd gefnogi'r rheini mewn swyddi anniogel neu waith â chyflog isel, i ddatblygu ym myd gwaith.

Mae prydau bwyd ysgol am ddim a banciau bwyd yn arwydd o'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli yn ein cymunedau.

Parseli banc bwyd	Rhoddwyd 9752 o barseli bwyd i drigolion Torfaen gan Fanc Bwyd y Cwm Dwyreiniol rhwng Ionawr 2018 a Mehefin 2021²⁸. Mae hyn yn cyfateb i 232 o barseli y mis ar gyfartaledd. Derbyniodd trigolion Cwmbrân 4388 o'r parseli hyn. Trigolion Canol Cwmbrân ddefnyddiodd y gwasanaeth fwyaf, sef 1109 o barseli; sef 26 o barseli'r mis ar gyfartaledd.
--------------------------	---

Nid Banc Bwyd y Cwm Dwyreiniol yw'r unig fanc bwyd y mae trigolion yn ardal Cwmbrân yn medru ei gyrchu, felly rhan o'r darlun yn unig yw'r data hwn.

Mae *'Tasty not Wasty'* yn Llanyrafon yn gynllun *'Fare Share'*, lle gall y rheini yn y gymuned sydd angen cymorth, gael hyd i fwyd sy'n cael ei ailddosbarthu gan archfarchnadoedd, a fyddai fel arfer yn ei wastraffu.

Gall darparu prydau ysgol iach i'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau helpu i wella iechyd cyffredinol, cefnogi gallu plentyn i ddysgu, a gall ddylanwadu ar ddewisiadau bwyd i ffwrdd o'r ysgol.



Mae **26.9%** o blant sy'n byw yng Nghwmbrân ac yn mynychu ysgolion yn Nhorfaen yn gymwys i dderbyn prydau bwyd ysgol am ddim ²⁹.

Gall rhandiroedd ddarparu ffynhonnell fforddiadwy o fwyd o ansawdd da, sy'n hanfodol ar gyfer diet iach. Gall y gweithgaredd corfforol sy'n gysylltiedig â chadw rhandir hefyd gynnig buddion iechyd ehangach. Nid oes gan bawb ardd neu le addas i dyfu ffrwythau a llysiau.

Yn ardal Cwmbrân mae 21 o safleoedd rhandiroedd sy'n eiddo i'r Cyngor. Rheolir y rhain gan Gymdeithas Rhandiroedd De Cwmbrân. Ers mis Hydref 2021, nid oedd rhandiroedd gwag yn ardal Cwmbrân ac mae rhestr aros o dros 150 ³⁰.

Mae angen i gymunedau'r dyfodol gael hyd i ardaloedd addas i dyfu bwyd yn lleol. Gall mannau tyfu cymunedol anffurfiol, fel perllannau, hefyd wneud cyfraniad.

Bydd creu amgylcheddau sy'n gwneud y dewis iach, y dewis hawsaf a gwella teimladau o ddiogelwch a chydlyniant yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol.

Salwch hirdymor sy'n cyfyngu	Yng nghymunedau Cwmbrân, mae lefelau salwch hirdymor sy'n cyfyngu, yn amrywio o gyfradd is o 20.3 fesul 100 o'r boblogaeth yn Ne-orllewin Cwmbrân i gyfradd uwch o 28.2 yng Ngogledd-orllewin Cwmbrân. Mae 3 o'r 7 cymuned yn uwch na'r gyfradd ar gyfartaledd yn Nhorfaen (24.2) a chyfradd Cymru (22.7). Yn yr ardaloedd LSOA llai o ran daearyddiaeth yn y cymunedau hyn, mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 16.6 yn Nwy Loc 2 a 32.4 ym Mhontnewydd 1 ³² .
Cyfradd marwolaethau: pob achos	Yn y 7 gymuned yng Nghwmbrân, mae lefelau marwolaethau o 'bob achos' yn amrywio o'r isaf, 859.2 fesul 100k o'r boblogaeth yn Ne-orllewin Cwmbrân, i gyfradd uwch o 1,346.4 yng Ngogledd-orllewin Cwmbrân. Mae 5 o'r cymunedau hyn yn uwch na'r cyfartaledd yn Nhorfaen a Chymru sy'n 1078.7 a 1048.3 yn ôl eu trefn ³³ .
Marwolaethau cyn pryd	Mae cyfraddau marwolaethau cyn pryd (dan 75) yng nghymunedau Cwmbrân yn amrywio o 313.0 fesul 100,000 yn Ne-orllewin Cwmbrân i 512.6 yng Nghanol Cwmbrân. Y gyfran ar gyfartaledd yng Nghymru yw 382.4 fesul 100,000 . Llantarnam 3 sydd â'r gyfradd uchaf, sef 657.7 fesul 100,000 ³⁴

Mae yna ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a all ddylanwadu ar iechedd. Mae modd osgoi cymaint o'r salwch, anghydraddoldeb ac amgylchiadau byw gwael a wynebir gan rannu o'n cymunedau, neu gellir lleihau eu heffaith.

Dywedodd arolwg cyn Covid ar gyfer trigolion Cwmbrân³¹ wrthym bod.....

Iechyd corfforol	68.4% o'r rheini a ymatebodd yn ystyried bod eu hiechedd corfforol yn eithaf da/da iawn. Mae tua 12% yn ei ystyried yn weddol wael/wael iawn.
Iechyd meddyliol ac emosiynol	o'r rheini a ymatebodd yn ystyried eu hiechedd meddyliol ac emosiynol yn dda iawn/weddol dda. Mae tua 7% o drigolion yn ei ystyried yn weddol wael/wael iawn .

Er bod iechedd a hunan-gofnodir yn dda, mae gan 28.2% o'r bobl sy'n byw yng Ngogledd-orllewin Cwmbrân salwch hirdymor sy'n cyfyngu ac mae cyfradd y rheini sy'n marw cyn amser yn Llantarnam 3 yn uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Bydd gwella disgwyliad oes iach, drwy atal effaith afiechedd cronig yn gyfan gwbl, ei oedi neu ei rheoli yn well, yn golygu y gall cenedlaethau'r dyfodol fyw bywydau llawnach am gyfnod hirwch.

4 Economi

4.1 Gwaith, sgiliau ac addysg

Mae cael addysg dda yn gallu chwarae rhan hanfodol wrth alluogi pobl ifanc i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a chyflawni eu potensial.

Mae data MALIC yn dweud wrthym fod Dôl Werdd 1, Cwmbrân Uchaf 3 a 4, a Dwy Loc 1 i gyd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran addysg. Mae yna hefyd gymunedau yng Nghwmbrân sydd â chrynnodiad uchel o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r data'n dweud wrthym y ffactorau economaidd-cymdeithasol a allai fod yn cyfrannu at fylchau cyrhaeddiad rhwng cymunedau.

Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau sy'n achosi cymaint o straen yn ystod plentyndod a gall hyn beri poen yn uniongyrchol i blentyn, fel camdriniaeth neu esgeuluso, neu fe all effeithio arnynt drwy'r amgylchedd y maen nhw'n byw ynddo, fel cael eu magu mewn cartref lle mae trais domestig neu unigolion sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill ³⁵

Nid oes gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gael ar lefel leol ar gyfer Cwmbrân. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd mewn mwy o berygl o wynebu mwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ³⁶.

Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael y dechrau gorau mewn bywyd trwy brofi ymddygiad teuluol iach, yn

enwedig yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf, a thorri'r cylch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mae addasiadau wedi'u gwneud i un ysgol gynradd (Nant Celyn) ac un ysgol uwchradd (YUC, Ysgol Uwchradd Fairwater gynt), mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd wedi'u hadeiladu (Blenheim a Llantarnam). Adeiladwyd ysgol gynradd Gymraeg newydd (Panteg) adeiladwyd ysgol uwchradd newydd, ychwanegwyd caffi cymunedol i'r ysgol arbennig (Crownbridge) a dechreuwyd ar y gwaith i adeiladu ysgol gynradd newydd arall (Maendy), ymestyn ysgol arbennig (Crownbridge) ac adnewyddu ysgol gynradd arall (YGC). Buddsoddwyd hefyd mewn darpariaeth ôl-16 newydd yng Nghwmbrân. Bydd gwella cyfleusterau dysgu a chefnogi dulliau addysgu modern o fudd i ddisgyblion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r trigolion 25 i 64 yng Nghwmbrân sydd heb gymwysterau yn amrywio o 14.1% yn Ne-ddwyrain Cwmbrân i 29.7% yng Ngogledd-orllewin Cwmbrân, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru sy'n 19.4%. Pontnewydd 1 yw'r LSOA sydd â'r gyfradd uchaf, sef 34.9% ³⁷.

Absenoldeb o'r ysgol dro ar ôl tro

Mae disgyblion sy'n absennol o'r ysgol dro ar ôl tro yng Nghwmbrân yn amrywio o 3.3% yn Ne-ddwyrain Cwmbrân i 9.1% yng Ngogledd-orllewin Cwmbrân, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru sy'n 5.4%. LSOA Dôl Werdd 1 sydd â'r lefel uchaf yng Nghwmbrân sef 11.1%. Yr isaf yw Dwy Loc 2 sef 1.5% ³⁸.

Disgyblion nad ydynt yn cychwyn mewn addysg uwch yn 18-19 oed

Mae disgyblion nad ydynt yn cychwyn addysg uwch yn 18-19 oed yng nghymunedau Cwmbrân yn amrywio o **81%** yng Ngogledd-orllewin Cwmbrân i 59% yn Ne-ddwyrain Cwmbrân. Ar lefel LSOA llai o ran daearyddiaeth, mae'n amrywio o'r uchaf **89%** yng Nghwmbrân Uchaf 4 i'r isaf, sef 49% yn Ne Llanyrafon ²³⁹.

Mae trigolion rhwng 18 a 19 oed yng Nghwmbrân sy'n dechrau addysg uwch yn amrywio o 18.6% yng Ngogledd Orllewin Cwmbrân i 40.7% yn Ne-ddwyrain Cwmbrân, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru sy'n 29.9%. Cwmbrân Uchaf 4 yw'r LSOA gyda'r gyfradd isaf sef 10.7%⁴⁰.

Mae arolwg o 1058 o ddisgyblion blwyddyn 11 (16 oed) a adawodd yr ysgol ar draws Torfaen yn 2018, yn dangos bod 35% yn mynd i'r 6ed dosbarth, 49% yn mynd i'r coleg, 8.6% yn mynd i hyfforddiant yn y gwaith a 4% yn cychwyn ym myd gwaith. Mae arolwg dilynol a gynhaliwyd flwyddyn yn ddiweddarach yn 2019 yn dangos bod y rhai sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn yr ysgol wedi gostwng 21% ar gyfer yr un garfan a bod y rhai amser llawn yn y coleg wedi gostwng 91% ⁴¹.

I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd trafndiaeth fod yn rhwystrau rhag mynd i addysg uwch ac aros yno.

Mae gan Gwmbrân **economi amrywiol**, o fusnesau uwch-dechnoleg sydd ar flaen y gad o ran arloesi, masnach fyd-eang a

chyflogaeth sgiliau uchel i'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau dydd i ddydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, fel ynni, gofal iechyd a gofal plant. Y sail cyflogaeth yw gweithgynhyrchu, manwerthu a gofal iechyd.

Cyflogaeth



Mae tua **23,664** o drigolion sy'n weithgar yn economaidd yng Nghwmbrân, o'r rhain:

- Mae 18,989 yn weithwyr
- 2,041 yn hunangyflogedig, a
- 1,654 yn ddi-waith ⁴²

Sgiliau



Nifer **%**

Heb Gymwysterau 10,901 **27.8**

Uchaf - Lefel 2 6,516 16.6

Uchaf - Lefel 3+ 12,621 32.1⁴³

Diwydiant cyflogaeth

Y diwydiant mwyaf o ran cyflogaeth yng Nghwmbrân yw **gweithgynhyrchu** - 17.1% o'r holl swyddi a **chyfanwerthu a manwerthu** - 17.0% o'r swyddi. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru sy'n 10.9% a 15.7% yn ôl eu trefn. Mae tua **4216** o swyddi yn y maes gweithgynhyrchu a **4179** o swyddi yn y maes cyfanwerthu a masnachu yng Nghwmbrân.

O'r swyddi gweithgynhyrchu, mae **46.3%** ohonynt yn cael eu hystyried yn uwch-dechnoleg ⁴⁴.

Bydd gwella cyfleoedd bywyd i'r holl bobl a'u caniatáu i gyflawni eu potensial yn helpu i gefnogi economi sy'n ffynnu. Gall gweithio gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn.

Gall prentisiaethau a rhaglenni sgiliau oedolion gefnogi'r rhai yn ein cymunedau sydd bellaf o'r farchnad swyddi i gael cyflogaeth dda.

Er mwyn i **genedlaethau'r dyfodol** ffynnu, bydd angen i economi Cwmbrân greu a chynnal cyflogaeth ddiogel ar gyfer ein trigolion.

Mae creu gwaith sydd angen sgiliau uwch hefyd yn bwysig. Bydd targedu rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau yn **sectorau'r dyfodol** yn darparu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Torfaen ynghyd â 9 ardal awdurdod lleol arall yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, gan drosoli £4bn o fuddsoddi sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae 8 sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth dros y 10 – 20 mlynedd nesaf ⁴⁵:



Ffigur 8: Sectorau o flaenoriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Yn gyffredinol, mae sylfaen gyflogaeth graidd Cwmbrân, sef gweithgynhyrchu, mewn sefyllfa dda i weithio yn rhai o'r sectorau hyn sydd o flaenoriaeth, ond efallai bydd cyfleoedd am fusnesau newydd.

Byddai cynlluniau i greu campws arloesi gwyddorau bywyd nesaf at yr ysbyty Gofal Arbenigol a Chritigol newydd yng Nghwmbrân yn ychwanegu at yr arlwy gwyddor bywyd rhanbarthol ac yn creu cyfleoedd gwaith medrus iawn yn lleol.

Yr economi sylfaenol yw'r enw ar swyddi sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau bob dydd sydd eu hangen ar ein cymunedau, a gyda'r dulliau meithrin priodol gellir darparu cyfoeth o swyddi lleol hirdymor.

Bydd **swyddi'r dyfodol** yn gysylltiedig â thrawsnewid i **sero carbon** yng Nghymru, ee y rheini sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio cartrefi yn Nhorfaen. Bydd angen y sgiliau cywir ar genedlaethau'r dyfodol er mwyn elwa ar y swyddi hyn.

Yn 2021 gwelwyd effaith materion cadwyni cyflenwi ynni ar fusnes, a chynnydd yng nghostau nwy cyfanwerthol. **Yn ogystal â bod yn effeithlon o ran ynni, mae angen cyflenwadau ynni diogel ar fusnesau nawr ac yn y dyfodol yn Nhorfaen.**

Gall **hinsawdd sy'n newid a datblygiadau o ran technoleg** arwain at fwy o alw am wahanol fathau o gynnyrch a gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd i fusnesau'r dyfodol.

Prif safleoedd cyflogaeth	8 stad ddiwydiannol yn cynnwys Avondale, Court Road a Springvale. Ardaloedd cyflogaeth sylweddol yw Parc Llantarnam, canol y dref a'r Ganolfan Gofal Critigol newydd.
----------------------------------	---

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae safleoedd cyflogaeth allweddol yng Nghwmbrân wedi bod dan bwysau oherwydd manwerthu a thai. Mae bod yn agos at yr M4 a Pharth Arfordirol y Ddinas hefyd wedi gwneud yr ardal yn ddeniadol o ran buddsoddiad.

Bydd yn rhaid i genedlaethau'r dyfodol gydbwyso'r pwysau o ran defnyddio tir. Drwy wella rheolaeth dros seilwaith gwyrdd, gall cenedlaethau'r dyfodol elwa ar

fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gallant eu darparu.

Mae manwerthu yn rhan bwysig o'r sylfaen gyflogaeth yng Nghwmbrân. Dangosodd gwaith monitro yn 2021 fod cyfraddau siopau gwag yng nghanol y dref wedi cynyddu i **10%**⁴⁷.

Nid ydym yn siŵr pa effaith fydd gan y pandemig ar ein trefi yn y tymor hir ac ar gyflogaeth. Efallai y bydd yn




Mae Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU yn nodi y gallai fod cyfleoedd i fusnesau yn sgil cynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag addasiadau a chynnydd mewn twristiaeth a gweithgarwch awyr agored. Nodwyd prinder dŵr, llifogydd mewn eiddo ac amhariadau i gadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu yn risgiau i fusnesau⁴⁶.

effeithio ar y ffyrdd yr ydym yn defnyddio canol ein trefi a'r effaith ar y galw am swyddfeydd yn y tymor hir.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am nifer y bobl yng Nghwmbrân a fuodd ar ffyrlo, y cafodd eu horiau gwaith eu lleihau neu a gollodd eu horiau gwaith neu a welodd newid mewn cyflogaeth oherwydd Covid-19.

5 Yr Amgylchedd



Mae ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd yn darparu ein **hanghenion mwyaf sylfaenol**, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden, maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed sy'n peillio, a storio carbon.

Mae'r rhan hon o'r asesiadau yn dweud wrthym am gyflwr a gwytnwch adnoddau naturiol Cwmbrân ac yn nodi'r heriau rheoli yn y tymor hir.

Os yw Cwmbrân am warchod a gwella ei fioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yna bydd angen cydbwyso'r pwysau i ddefnyddio tir, yn ofalus.

Nodweddion nodedig	Dŵr llonydd agored, glaswelltir niwtral cyfoethog ei rywogaethau, glaswelltir corsiog, coetir hynafol, perllannau, afonydd, coridorau camlesi ac afonydd', coetir gwlyb, cors iseldir, coed trefol a gwrychoedd.
Rhywogaethau nodedig	Gardwenynen frown, dyfrgi, ystlum pedol lleiaf, llyffantod, bronfraith, llysywen Ewropeaidd, brithribin gwyn, brithyllod brown.

Dynodiadau cadwraeth natur allweddol

Gwarchodfeydd Natur Lleol Pyllau Churchwood a Springvale, GNL Man Agored Henllys, GNL Llwynycelyn, Cors Henllys – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
Sawl Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, yn benodol coridorau ecolegol strategol Camlas Mynwy ac Aberhonddu, y rhwydwaith seiclo a choridor Afon Lwyd.

Mae naws wahanol i dirwedd Cwmbrân a'i gymunedau o gymharu â Blaenafon a Phont-y-pŵl. Mae nodweddion strydlyn trefol rhan helaeth o dref newydd Cwmbrân yn un o resi o goed aeddfed a lled-aeddfed. Mae'r rhain ynghyd ag ymylon ffyrdd glaswelltir a reolir mewn modd cynaliadwy yn darparu cysylltedd ecolegol.

Cafodd datblygiad Cwmbrân, fel 'Tref Newydd' ei gynllunio i ymgorffori ardaloedd o fannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol, ac mae'n cynnwys rhwydweithiau o goetiroedd, coed trefol, parciau, gerddi, ymylon ffyrdd, rhandiroedd, mynwentydd ac ardaloedd amwynder.

Yn y de, mae ardaloedd hamdden Parc Southfields a Llyn Cychod Cwmbrân yn rhan o'r gorlifdir ar hyd Afon Lwyd, ac maent yn cynnwys glaswelltir â hadau blodau gwyllt a llystyfiant gwlypdir o amgylch ymylon y llyn cychod. I'r de o Gwmbrân, mae gorlifdir yr afon yn gyfle da i amddiffyn ac annog coetir gwern gwlyb a oedd unwaith yn gyffredin i ardaloedd glan afon ⁴⁸.

Camlas Mynwy ac Aberhonddu a choridor yr Afon Lwyd yw'r **prif goridorau ecolegol** llinellol sy'n cysylltu Cwmbrân drefol â'r wlad o amgylch. Yn ogystal, gwnaeth rhwydwaith o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) gyfraniad pwysig i seilwaith gwyrdd Cwmbrân.

Mae cynnal, gwella ac adfer gorlifdir yn bwysig i leihau'r perygl o lifogydd, a gwella ansawdd dŵr ⁴⁹.

Mae man gwyrdd arall o bwys wedi'i ganoli ar y glaswelltir agored a'r cynefinoedd coetir o amgylch Fferm Gymunedol Greenmeadow. Mae cynefinoedd glaswelltir y fferm a pherllan yn cysylltu â Gwarchodfa Natur Leol Springvale a Churchwood gan ddarparu **adnodd trefol allweddol o ran pryfed sy'n peillio**, yng nghanol Cwmbrân.

Mae datblygu trefol wedi arwain at golli glaswelltir oedd wedi ei wella i raddau, yn ardal Cwmbrân. Mae glaswelltir wedi ei wella i raddau yn bwysig i **bryfed sy'n peillio**.

Y tu allan i'r ardal drefol mae'r dirwedd yn dod yn fwy amaethyddol, gan gynnwys glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, yr hyn sy'n weddill o wrychoedd a phrysglwyni bach i ganolig eu maint. Lle mae tir wedi osgoi effaith arferion ffermio mae rhai darnau o laswelltiroedd cyfoethog i'w gweld, llawer ohonynt ar hyd coridor camlas Mynwy ac Aberhonddu.

Ansawdd Dŵr



O dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, mae Nant Dowlais, un o lednentydd Afon Lwyd yn cael ei hystyried o statws ecolegol **cymedrol** ⁵⁰.

Mae'r rhesymau dros y fath statws yn cynnwys carthffosiaeth, llygredd, o bosib gan y stadau masnachu a diwydiannol a rhwystrau i daith y pysgod. Ystyrir bod Afon Lwyd isaf o statws ecolegol da⁵¹

Arwydd o welliant yn ansawdd dŵr Afon Lwyd yw presenoldeb brithyll brown a rhywogaethau pwysig fel y dyfrgi ⁵².

Gall algai flodeuo yn ystod amseroedd cynhesach y flwyddyn ar rannau'r gamlas na ellir eu mordwyo. Gall hyn fod yn arwydd o lefelau uchel o faetholion yn y dŵr.

Mae coetiroedd a chynefinoedd eraill fel gerddi, coed a mannau gwyrdd trefol yn chwarae rhan bwysig wrth reoli dŵr ffo, atal glawiad a helpu i rwystro'r pridd rhag erydu - a allai waethygu llifogydd.

Yng Nghwmbrân mae **coed trefol wedi diflannu'n** raddol.

Rhagfynegwyd mai **23.9%** oedd canran cymedrig y coed oedd yn gorchuddio'r ardal drefol yn 2013 ⁵³.

Bydd gan y coed cywir sy'n cael eu plannu nawr y potensial i roi cysgod a chysur thermol i genedlaethau'r dyfodol yn yr amgylchedd trefol.

Mae cyflwr gwael, diffyg rheolaeth, dryllio a datblygu'n agos at gynefinoedd coetir yn faterion yn ardal Cwmbrân. Yn y blynyddoedd diwethaf mae nifer sylweddol o goed llarwydd hefyd wedi cael eu tynnu yng Nghwmbrân Uchaf fel rhan o gamau i reoli'r pathogen tebyg i ffwng, sef *Phytophthora ramorum* neu **glefyd coed ynn**. Cafodd hyn effaith amlwg ar y dirwedd. Mae clefyd ffwng newydd o'r enw **clefyd coed ynn** (*Hymenoscyphus fraxineus*) yn lledaenu'n gyflym, gan fygwth dyfodol rhai o goed Cwmbrân.

Mae newid yn yr hinsawdd yn dod â bygythiad cynyddol i'n planhigion a'n hanifeiliaid brodorol a hynny gan blâu a chlefydau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a gan rywogaethau anfredorol sy'n ymledu⁵⁴.

Mae rhywogaethau anfredorol sy'n ymledu, **fel rhedyn y dŵr, ffromlys chwarennog, llysiau'r dial** a diangfeydd o'r ardd gan gynnwys Montbretia hefyd yn broblem yng Nghwmbrân yn enwedig ar hyd coridorau'r gamlas a'r afon, a choetiroedd trefol. Gall y rhywogaethau planhigion anfredorol hyn, sy'n ymledu, drechu fflora brodorol a gall rhai achosi difrod strwythurol difrifol i eiddo a seilwaith adeiledig.

Mae Cwmbrân yn gartref i dair Cronfa Natur Leol (CNL). Dyma ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac maent yn bwysig yn lleol i fywyd gwyllt.

Mae GNL Pyllau Churchwood a Springvale yn cynnwys coetiroedd hynafol a chfres o byllau a gwlypdiroedd. Mae GNL

Man Agored Henllys yn cynnwys ystod o gynefinoedd, yn cynnwys glaswelltir a choetir llydanddail ac mae'n cynnal cyfoeth o fywyd gwyllt, fel y glöyn gwyn cleisiog a llwyd y ddôl. Saif **GNL Caeau Llwyncelyn** uwchben cymunedau Llwyncelyn a Choed Eva, ger y fynwent newydd, a dyma'r enghraifft fwyaf o ddolydd â chyfoeth o flodau yn Nhorfaen.

Mae **Cors Henllys** hefyd yn cael ei chydabod yn gynefin pwysig. Mae'r gors fechan hon yn y cwm wedi'i hamgylchynu gan goetir.



Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU yn nodi bod angen mwy o weithredu yng Nghymru i adfer storfeydd carbon diraddiedig, yn enwedig mawndiroedd ⁵⁵.

Mae **Mynydd Maen** yn ardal o fawndir uwchben Cwmbrân. Mae mawndir a'i llystyfiant cysylltiedig sy'n ffurfio cors, yn cymryd miloedd o flynyddoedd i'w ffurfio. Mae'r llystyfiant mwsoglyd ar wyneb y gors yn atal ocsigen rhag cyrraedd y llystyfiant gwlyb, pydredig o dan yr wyneb, gan gloi'r carbon y tu mewn.

Pan fydd corsydd yn diraddio mae'r carbon y maent yn ei storio yn cael ei ryddhau yn ôl i'r atmosffer. Effeithir hefyd ar eu gallu i ddal dŵr sy'n golygu y gall dŵr o'r tiroedd uchel gyrraedd yr afon yn gyflymach gan ychwanegu at lefelau dŵr ymhellach i lawr y cwm.

Yn ystod 2019 mae rhywfaint o waith adfer wedi'i wneud i helpu i ddiogelu'r adnodd gwerthfawr hwn. Hyfforddwyd Cymdeithas Cominwyr Cyfun Mynydd Maen i wneud llawer o'r gwaith.

Os yw cenedlaethau'r dyfodol am elwa ar fuddion storio carbon a rheoli dŵr ar fawndir Cwmbrân, yna mae angen rheolaeth briodol i warchod a gwella'r ased pwysig hwn.

Potensial am ynni adnewyddadwy	Dengys astudiaethau'r potensial i greu mwy o ynni o offer solar wedi'i osod ar y ddaear, offer ffotofoltäig ar y to a gwynt . Mae yna botensial hefyd am gynlluniau gwresogi rhanbarthol ⁵⁶ .
---------------------------------------	--

Mae yna gyfleoedd sylweddol am **offer solar wedi'i osod ar y ddaear** sy'n debyg i ddatblygiad 3MW y Cyngor sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn Nhŷ Coch. O ystyried y newid yn y dirwedd o ddyffryn i fryniau tonnog, bydd cynlluniau tebyg pellach yn cael eu hasesu'n llawn ar gyfer eu heffaith weledol. Mae yna nifer o osodiadau **offer ffotofoltaig ar doeon** adeiladau cyhoeddus a phreifat ac mae yna botensial am lawer mwy. Mae ardal y tir uchel i'r gorllewin o Gwmbrân wedi cael ei nodi gan Lywodraeth Cymru fel ardal sy'n addas ar gyfer **tyrbinau gwynt**. Yn rhan o'u gwaith cyn-asesu cafwyd y byddai'r effaith posibl ar y dirwedd yn dderbyniol. Mae gan Gwmbrân hefyd waith Gwres a Phŵer Cyfunol yn yr Orsaf Bŵer a chanfuwyd y potensial i greu cynlluniau **rhwydwaith wresogi rhanbarthol** sy'n gysylltiedig â safleoedd datblygu strategol.

Fel rhan o waith ar y cyd i wella lles yn Nhorfaen, datblygwyd Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a rennir sy'n amlinellu blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau gwytnwch a chysylltedd rhwydwaith seilwaith gwyrdd Torfaen. Mae'n nodi sut y gellir defnyddio'r adnodd hwn i

sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.⁵⁷. Ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cwmbrân mae:

- Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Creu gwelliannau o ran rheoli adnoddau dŵr.
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy.
- Gwella adnoddau peillio.
- Gwella mynediad i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy i wella cysylltedd.
- Rheoli a phlannu coed mewn ardaloedd llygredig.
- Cynnal a rheoli parciau a gerddi cyhoeddus mewn modd cynaliadwy.
- Rheoli ardaloedd o laswelltir i gynnal pryfed sy'n peillio.

Bydd meithrin dull rhanbarthol o reoli mannau gwyrdd a chydweithio â phartneriaid, gan rannu'r dysgu ac adnoddau yn ein helpu i greu adnoddau naturiol gwydn â chysylltiadau da, y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu arnynt.

6 Diwylliant

Atyniadau allweddol	Theatr y Congress, Fferm Gymunedol Greenmeadow, Llyn Cychod Cwmbrân, Canolfan Byw Egniol Cwmbrân
Dynodiadau treftadaeth allweddol	Parc a Gardd Hanesyddol ac Ardal Gadwraeth yn Llantarnam

Mae Cwmbrân yn darparu mynediad i amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r lleoliadau'n cynnwys Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange, Theatr y Congress, Sinema Vue a nifer o dafarndai sy'n gartref i gerddoriaeth fyw.

Y Digwyddiad Mawr yw digwyddiad haf blynyddol Cwmbrân sy'n dod â chymunedau lleol a chynulleidfia ehangach at ei gilydd, a hynny am eu bod yn cael eu denu at y cyfuniad o naws carnifal, cerddoriaeth, perfformiadau theatr a chwaraeon.

Mae chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol yn ffordd dda o ddod â grwpiau amrywiol o bobl at ei gilydd.

Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn darparu ystod eang o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn Stadiwm Cwmbrân a Chanolfan Hamdden Fairwater. Gwneir ymdrechion i sicrhau bod gweithgareddau yn gynhwysol. Yn ddiweddar, mae partneriaeth gyda Dreigiau Gwent wedi sefydlu Tîm Rygbi Cerdded Swifts Torfaen.

Mae campfeydd, pyllau nofio a neuadd snwcer sector preifat hefyd ar gael, ac mae Cwmbrân yn gartref i nifer o dimau chwaraeon gan gynnwys clybiau paffio a sawl tîm pêl-droed ar gyfer pob oedran.

Bydd cyfleusterau newydd pwrpasol yng Nghroesyceiliog yn gartref i glwb Tennis *Padel* cyntaf Cymru. Mae'r gamp yn groes rhwng tenis a sboncen ac mae'n boblogaidd yn Sbaen a llawer o wledydd Lladin-Americanaid.

Mae digon o gyfleoedd i fwynhau cerdded a beicio yn ardal Cwmbrân, sydd hefyd yn fanteisiol o ran gwella iechyd, drwy gael pobl i fod yn fwy actif. Llwybr Afon Lwyd yw'r prif lwybr beicio oddi ar y ffordd trwy Dorfaen, a hynny o Gwmbrân i Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

Nodwedd treftadaeth allweddol yng Nghwmbrân yw'r gamlas. Wedi'i adeiladu'n wreiddiol i gludo nwyddau a deunyddiau crai, mae bellach yn goridor ecolegol pwysig ac yn llwybr teithio llesol.

Uwchben Cwmbrân ar ochr Mynydd Maen, mae Coetir Cymunedol Blaen Bran yn cynnig gofod hamdden sy'n galluogi'r gymuned i fwynhau natur. Ymddiriedolaeth Coetir Cymunedol Blaen Bran sy'n cynnal a chadw'r coetir. Mae mynediad i ardaloedd coetir llai ar gael mewn sawl rhan o'r dref.

Bydd cefnogi pobl i fyw bywydau iach, lle gallant gyflawni eu potensial addysgol a dod yn rhan o weithlu iach, yn cyfrannu at les economaidd ehangach.

Cyn Covid, dywedodd trigolion Cwmbrân wrthym	
Chwaraeon a hamdden 	Dywedodd 83.9% o'r rheini a ymatebodd bod chwaraeon a hamdden yn bwysig iawn/weddol bwysig iddynt. Mae 40.0% o'r rheini a ymatebodd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn wythnosol ⁵⁸ .
Celfyddydau a diwylliant 	Dywedodd 50.6% o'r rheini a ymatebodd bod y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn bwysig iawn/weddol bwysig iddynt . Mae 18.4% o'r rheini a ymatebodd yn cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn fisol. Dywedodd 25.3% nad ydynt byth yn cymryd rhan yn y celfyddydau na gweithgareddau diwylliannol.

Dywedodd arolwg trigolion a gynhaliwyd cyn Covid nad yw pawb sy'n mwynhau chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

Mae'r arolwg hefyd yn dweud wrthym nad oedd pawb a nododd fod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn bwysig iddynt, yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

Mae rhai pobl sy'n byw yng Nghwmbrân yn wynebu sawl math gwahanol o amddifadedd, mae hyn yn golygu bod fforddiadwyedd yn debygol o fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill.

Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r buddion iechyd a geir wrth fod yn actif a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, yna mae angen mynd i'r afael â'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan.

7 Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

Ochr yn ochr ag edrych ar y data, rydym wedi cynnwys ein cymunedau i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl a gwerthfawrogi sut y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i wella llesiant, gan ganolbwyntio ar gryfderau ein pobl a'n lleoedd. Mae'r adran hon yn dweud wrthym beth mae pobl sy'n byw yn Nhorfaen yn ei feddwl am lesiant yn eu cymuned.

Ar ddiwedd haf 2021 gofynnwyd i drigolion ledled Gwent lenwi holiadur llesiant. Derbyniwyd cyfanswm o 127 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen. Gofynnwyd 4 cwestiwn i'n cymunedau:


Beth sy'n arbennig am eich cymuned?

Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

Sut hoffech chi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?

Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?

Mae Ffigur 14 yn grynodeb o'r themâu allweddol, sydd ym marn y bobl, yn arbennig am gymunedau yn Nhorfaen a'r hyn y credent fyddai'n eu gwneud yn lleoedd gwell.



Ffigur 14: Yr hyn y mae trigolion yn Nhorfaen yn dweud sy'n arbennig a'r hyn fyddai'n gwneud eu cymunedau yn well

Asesiad Lles Cwmbrân

C1 Beth sy'n arbennig am eich cymuned?	C2 Beth fyddai'n gwneud eich cymuned yn lle gwell?	C3 Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?	C4 Sut hoffech chi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?	C5 Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?
Mynediad at fan agored (30)	Diogelwch cymunedol (20)	Diogelwch cymunedol (48)	Diogelwch cymunedol (20)	Ymgysylltiad cymunedol (11)
Cydlyniant cymunedol (24)	Sbwriel (15)	Mynediad at wasanaethau (15)	Ysbryd cymunedol (16)	Cydlyniant cymunedol (4)
Ysbryd cymunedol (15)	Mesurau arafu traffig (10)	Mynediad at weithgareddau (14)	Mynediad at fan glân (14)	Grwpiau cymunedol/Ysbryd cymunedol/ Gwirfoddoli (3)

Ffigur 15: Y tri phrif ymateb i Dorfaen

Mae Ffigur 15 yn dangos y prif ymatebion i gwestiynau'r arolwg gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen.

Dywedodd trigolion sy'n byw yng Nghwmbrân a'i chymunedau wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu cymuned a sut yn ystod y pandemig, y gwnaeth cymunedau gydweithio a dod yn fwy gofalgwr a chymwynasgar tuag at ei gilydd. De wnaeth trigolion hefyd dynnu sylw at ba mor bwysig ydyw i allu teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau lleol.

8 Cyfeiriadau

- ¹ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG.
- ² Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG.
- ³ Cofrestr Dreth Cyngor Torfaen. Mawrth 2021
- ⁴ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG
- ⁵ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁶ ACB SYG 2019
- ⁷ ACB SYG 2019
- ⁸ ACB SYG 2019
- ⁹ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- ¹⁰ ACB SAC 2019
- ¹¹ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS207WA
- ¹² SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- ¹³ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS201EW
- ¹⁴ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS209EW
- ¹⁵ Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru
- ¹⁶ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl WU03UK_MSOA
- ¹⁷ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS605EW
- ¹⁸ Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2018.
- ¹⁹ Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2021.
- ²⁰ Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru
- ²¹ Asiantaeth y Swyddfa Brisió. 31 Mawrth 2021.
- ²² SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS402EW.
- ²³ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru.
- ²⁴ Cofrestrfa Tir 2020.
- ²⁵ SYG (2020). Nomis.
- ²⁶ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru.
- ²⁷ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ²⁸ Banc Bwyd y Cwm Dwyreiniol, 2021.
- ²⁹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2020.
- ³⁰ Cymdeithas Rhandiroedd De Cwmbrân. Hydref 2021.
- ³¹ Arolwg Trigolion Torfaen (2017). Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- ³² Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru
- ³³ Pob Marwolaeth: Cyfraddau Marwolaeth (Safoni yn ôl Oedran) fesul 100K pob – Cyf. 3 bl, 2015-17. Healthmapswales.wales.nhs.uk
- ³⁴ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ³⁵ Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru -Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod - Cymru. Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg y boblogaeth oedolion yng Nghymru – 2015.
- ³⁶ Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru -Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod - Cymru. Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg y boblogaeth oedolion yng Nghymru – 2015.
- ³⁷ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru.
- ³⁸ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru.
- ³⁹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru.
- ⁴⁰ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru.
- ⁴¹ Hynt Disgyblion, Gyrfa Cymru, 2018-2020
- ⁴² SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS601EW
- ⁴³ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS501EW
- ⁴⁴ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl WP605EW
- ⁴⁵ [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)
- ⁴⁶ Asesiad Risg Newid i Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Synthesis: blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd.
- ⁴⁷ Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2021.
- ⁴⁸ DTZ 2009 Adroddiad Sylfaenol Strategaeth Adfywio Cwmbrân. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

⁴⁹ Datganiad Ardal De Dwyrain Cymru, 2019. CNC.

⁵⁰ Cynllun Adfer Strategol ar gyfer Afon Lwyd. JBA Consulting. NRW 2020.

⁵¹ Cynllun Adfer Strategol ar gyfer Afon Lwyd. JBA Consulting. NRW 2020.

⁵² DTZ 2009. Adroddiad Sylfaenol Strategaeth Adfywio Cwmbrân. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

⁵³ Gorchudd Coed y Dref ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, 2016. CNC.

⁵⁴ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Synthesis: blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

⁵⁵ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru es.

⁵⁶ Asesiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Crynodeb Annhechnegol. Ymddiriedolaeth Carbon. 2020

⁵⁷ Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.

⁵⁸ Arolwg Trigolion Torfaen (2017). Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen